

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL PANEL HEDDLU A THROSEDD



Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 3 Rhagfyr 2018 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor - Bodlonddeb, Conwy

RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**
Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth a natur** eu cysylltiadau personol.
3. **Materion Brys**
Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
4. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**
5. **Cyflwyniad ar Argymhellion y Rhaglen Gwella Gweithredu (y Prif Uwcharolygydd Goss a'r Uwcharolygydd Evans)**
6. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 19)
Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir
7. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**
 - a) Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol
 - b) Rhestr o benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 20 - 22)
 - c) Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)
 - d) Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr

8. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

- a) Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 23 - 41)
- b) Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Adroddiad Blyneddol 2017/18 (Drafft) (Tudalennau 42 - 81)
- c) Diweddariad ar Gyllideb 2018/19 (ar 30 Medi 2018) (Tudalennau 82 - 85)

9. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal

- a) Adolygiad o rôl Aelodau sy'n Gefnogwyr (Tudalennau 86 - 89)
- b) Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Adroddiad Cyllideb 1 Ebrill 2018 i 30 Medi 2018. (Tudalennau 90 - 94)
- c) Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 95 - 96)

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Llun, 28 Ionawr 2019 @ 2.00 pm

Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2019 @ 10.00 am (Os bydd pleidlais atal y praecept)

Aelodau'r Panel

Cyng Chris Bithell
Cyng Dana Davies
Cyng Julie Fallon
Cyng Alan Hunter
Cyng Hugh Irving
Cyng Eric Jones
Cyng Neville Phillips OBE Y.H.
Cyng Peter Read
Cyng Dylan Rees
Cyng Nigel Williams

Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Mon
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Pat Astbury (Is-Gadeirydd)
Matthew Forbes
William John Williams

Aelod Annibynnol Cyfetholedig
Aelod Annibynnol Cyfetholedig
Aelod Annibynnol Cyfetholedig

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r manau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r manau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 24 Medi 2018, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor - Bodlonddeb, Conwy

YN BRESENNOL: Pat Astbury (Is Gadeirydd yn y Gadair)

Y Cynghorwyr: Pat Astbury, Chris Bithell, Dana Davies,
Capten Matthew Forbes, Alan Hunter, Hugh Irving, Eric
Jones, Neville Phillips, Dylan Rees, John Williams a Nigel
Williams

Aelod Lleyg/ Aelod Mathew Forbes a John Williams
Cyfetholedig

Swyddogion: Dawn Hughes (Uwch Swyddog Cefnogi) a Richard Jarvis
(Swyddog Arweiniol a Cyngorydd Cyfreithiol i'r Panel
Heddlu a Throsedd)

Hefyd yn Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd),
bresennol: Stephen Hughes (Prif Weithredwr – Swyddfa'r Comisiynydd
Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a
Throsedd), Diane Jones (Swyddog Comisiynu – Swyddfa'r
Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Geraint Jones
(Arweinydd Ymgysylltu Busnes) a Rhian Rees Roberts
(Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd)

Atgoffodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r
Gymraeg yn y cyfarfod, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

23. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Julie Fallon (Cadeirydd),
Peter Read a Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr
Heddlu a Throsedd).

24. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Datganodd y Cyngorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad
personol, gan ei fod yn ymddiriedolwr Uned Diogelwch Camdriniaeth
Domestig Glannau Dyfrdwy, sy'n manteisio o gyllid gan Gomisiynydd yr
Heddlu a Throsedd.

25. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Cydnabu'r Is-Gadeirydd a oedd yn y Gadair, lwyddiant y gwrandawriad cadarnhau diweddar, pan benodwyd Mr. Carl Foulkes fel Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Cadarnhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai Mr. Foulkes yn dechrau ei rôl ar 5 Tachwedd 2018.

26. **CYFLWYNIAD AR Y PORTFFOLIO PLISMONA DIGIDOL GAN GERAINT JONES (ARWEINYDD YMGYSYLLTU BUSNES, HEDDLU SUSSEX)**

Rhoddodd Mr. Geraint Jones, Arweinydd Ymgysylltu Busnes, gyflwyniad i'r Panel Heddlu a Throsedd ar Bortffolio Plismona Digidol, a oedd yn rhaglen genedlaethol i gefnogi esblygiad plismona, gan alluogi Lluoedd i ymateb ac addasu i'r byd cynyddol digidol yr ydym yn byw ynddi.

Hysbyswyd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod disgwyliadau'r cyhoedd yn newid, ac o'r rhai a gyflawnodd yr arolwg, byddai well gan 37% o bobl adrodd am drosedd drwy sianeli digidol ac roedd 78% o blant a phobl ifanc yn credu y dylai'r Heddlu fod ar gael i siarad â nhw ar gyfryngau cymdeithasol.

Roedd y Portffolio Plismona Digidol wedi'i arwain gan fusnes (yn hytrach na TGCh), er mwyn darparu gwasanaeth gwell i ddioddefwyr, y cyhoedd ac yn weithredol.

Rhannwyd y Portffolio i 3 rhan, oedd yn cynnwys:

Gwybodaeth ac Ymchwiliad Digidol:

- Gweledigaeth y rhaglen waith oedd galluogi plismona er mwyn diogelu'r cyhoedd trwy atal a chanfod trosedd mewn cymdeithas gynyddol ddigidol.
- Mae 'Model Gweithredu Targed', Gwybodaeth ac Ymchwiliad Digidol Cenedlaethol wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a bydd yn rhoi dull cydlynol o ddarparu galluoedd gwybodaeth ac ymchwilio i fodloni'r galw.
- Roedd amserlen o 18 mis, i'w gwblhau erbyn Mawrth 2020.

Digidol yn Gyntaf:

- Darparu mecanweithiau i alluogi plismona a'r System Cyfiawnder Troseddol gydweithio mewn ffordd fwy digidol.
- Bydd Ffeil Achos Ddigidol yn cael ei ddatblygu trwy weithdai gyda Gwasanaethau Erllyn y Goron a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol er mwyn pennu pa wybodaeth sydd angen ei gasglu a sut y dylid ei gyflwyno a'i gategoreiddio (e.e. Ymchwiliad, Cyngor Ymchwiliol Cynnar, Cyhuddiad).
- Bydd peilot byw o Wasanaeth Trosglwyddo Tystiolaeth yn Ddigidol (DETS) mewn 5 Llu o Chwefror 2019 ymlaen, gyda dadansoddiad gwireddu buddion i ddilyn. Byddai'r system DETS yn galluogi holl

Bartneriaid Cyfiawnder i drosglwyddo tystiolaeth i blatfform TG cyffredin.

- Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r peilot, bydd dyluniad DETS yn cael ei adnewyddu a'i sicrhau cyn ei gyflwyno'n genedlaethol
- Dechrau ei gyflwyno'n genedlaethol ar ôl hynny, yn dilyn cwblhau caffael (oddeutu 18 mis)

Cyswllt Cyhoeddus Digidol:

- Y weledigaeth oedd trawsnewid perthynas yr heddlu gyda'r cyhoedd drwy gyflwyno sianel newydd (Un Cartref Ar-lein – SOH), wedi ei ganolbwyntio ar y cyhoedd yn yr un modd â'r gwasanaeth 999.
- Mae'r SOH yn 'fyw' mewn 3 Llu hyd yn hyn, sy'n galluogi'r cyhoedd i adrodd am droseddau megis mân ddigwyddiadau traffig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r SOH yn darparu'r cyhoedd â sianel cyfathrebu ychwanegol, gyda'r nod o leihau'r galw ar y gwasanaeth 999 a 101; byddai'r system yn 'brysennu' r wybodaeth ac yn gallu atgyfeirio'r galw i'r sefydliadau priodol os nad yw'n fater i'r heddlu.
- Y nod oedd trosglwyddo 20 Llu i'r platfform cenedlaethol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2019/20.
- Prosiect Cyfryngau Cymdeithasol, gyda'r nod o:
 - Ddarparu model ar gyfer defnydd cyfryngau cymdeithasol lleol gyda dewisiadau hyblyg i fodloni anghenion lleol wrth fod yn gyson gyda'r SOH.

Diolchodd y Panel i Mr. Jones am y cyflwyniad llawn gwybodaeth a thrafodwyd y canlynol:

- ystod oedran y bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg.
 - Dywedodd Mr. Jones eu bod wedi ymgynghori â phobl ifanc rhwng 12 – 16 oed, gan mai'r rhain a ystyriwyd y fwyaf agored i niwed ar y cyfryngau cymdeithasol.
 - Cafodd y Panel wybod bod pobl ifanc yn eistedd ar y Tîm Prosiect Cyfryngau Cymdeithasol.
- Roedd yr SOH yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a chedwir y data yn unol â deddfwriaeth.
- Cadarnhawyd bod y DETS yn system ar gyfer Partneriaid Cyfiawnder yn unig ac ni all y cyhoedd anfon tystiolaeth drwy'r system.
- Bydd yr SOH yn lleihau galw ailadroddus ar y system 101 gan y byddai'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd.

Croesawodd y Panel gyflwyniad arall unwaith y byddai'r SOH yn gweithredu'n fyw yn genedlaethol; roedd yn cael ei beilotu ar hyn o bryd gan yr Heddlu Metropolitaidd, Heddlu Hampshire a Heddlu Dyffryn Tafwys. Anogodd Mr. Jones i aelodau'r panel ymweld â'r gwefannau hyn.

PENDERFYNWYD-

Nodi'r cyflwyniad.

27. **CYFLWYNIAD AR Y FFRAMWAITH GOMISIYNU GAN DIANE JONES
(SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD)**

Rhoddodd y Swyddog Comisiynu gyflwyniad i'r Panel Heddlu a Throsedd ar ddull y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o gomisiynu gwasanaethau.

Roedd y cyflwyniad yn sôn am y meysydd canlynol:

- Y Dull Comisiynu:
 - Cafodd y Panel wybod bod gan y Comisiynydd bwerau i wneud grantiau i a chomisiynu nwyddau a gwasanaethau gan sefydliadau ac unigolion a allai helpu ddarparu amcanion Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.
 - Comisiynwyd Asesiad o Anghenion gan swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Mai 2014 a sefydlwyd platfform i ddeall y siwrnai i Wasanaethau Dioddefwyr. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar anghenion (anghenion wedi'u bodloni a heb eu bodloni) ac yn amlygu'r ffaith bod Gwasanaethau Dioddefwyr yn byw gydag ansicrwydd o amgylch trefniadau cyllido; roedd cyllid yn dod o amryw o ffynonellau gwahanol; ac roedd Gwasanaethau'n gweithredu'n ad hoc mewn rhai meysydd.
 - Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn nodi anghenion budd-ddeiliaid, a arweiniodd at adolygiad i Gynllun Heddlu a Throsedd er mwyn bodloni anghenion y gymuned.
- Er mwyn darparu Amcanion Heddlu a Throsedd roedd tair ffrwd waith:
 - Grantiau Trosedd ac Anrhefn, sydd wedi ariannu nifer o fentrau megis Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau, Prosiect Braenaru i Ferched a gwaith cyfiawnder ieuencid. Yn ogystal, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno Cronfa Ymyrraeth Gynnar, sy'n caniatáu i sefydliadau ymgeisio am gyllid.
 - Cyllideb Comisiynu i Ddioddefwyr, sy'n cefnogi'r Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol.
 - Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), sy'n gronfa cyllid rhanbarthol.
- Y Cylch Comisiynu
 - Deall, Cynllunio, Adolygu a Gweithredu.
- Llwyddiannau yn 2017/18:
 - Roedd Grant Dioddefwyr o £814,076 wedi dod a £643,522.74 ychwanegol mewn arian cyfatebol.
 - Roedd 35,674 o ddioddefwyr wedi cael eu cefnogi drwy'r gwaith hwn.
 - Lansio Polisi Gwerth Cymdeithasol ar gyfer yr economi lleol, diwylliant, cyflenwad a gwasanaethau.
- Blaenoriaethau Comisiynu'r Dyfodol ar gyfer 2018/19:
 - Cyd-gomisiynu Rhanbarthol

- Gwerth Cymdeithasol (Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus Gwerth Cymdeithasol 2012)
- Caffael Moesegol
- Tueddiadau Newydd
- Integreiddio Gwasanaethau
- Datganoli Cyfiawnder Ieuencid
- Datganoli Gwasanaeth Tyst i'r Comisiynydd

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Swyddog Comisiynu am y cyflwyniad a hysbysodd y Panel ei bod yn ddiweddar wedi eistedd ar Banel Cronfa Ymyrraeth Gynnar. Pwrpas y Panel oedd ystyried prosiectau ymyrraeth gynnar er mwyn atal trosedd ac anrhefn yng nghymunedau Gogledd Cymru, yn unol â Chynllun Heddlu a Throsedd a'r Rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Roedd y lefel o ddiddordeb yn galonogol iawn, ac roedd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn gyfystyr â £600,000; roedd £100,000 ar gael. Teimlai'r Panel bod posibilrwydd o gydweithio gyda rhai o'r ceisiadau a dderbyniwyd hefyd.

Dywedodd Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd bod y Tîm Comisiynu wedi bod yn destun ymchwiliad llwyddiannus yn ddiweddar, a rhoddodd sicrwydd i'r Panel bod y Fframwaith Comisiynu yn ddull effeithiol o gomisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr troseddau. Diolchodd y Prif Weithredwr i swyddogion Swyddfa'r Comisiynydd (Diane Jones ac Eirlys Jones) am eu holl waith caled.

O ran y posibilrwydd o ddatganoli Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid i Lywodraeth Cymru, awgrymodd y Comisiynydd y byddai datganoli'n darparu system fwy llyfn a chyson. Dywedodd y Comisiynydd bod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Sir y Fflint yn treialu dull newydd ar hyn o bryd ac awgrymodd iddynt fynychu un o gyfarfodydd nesaf y Panel;

PENDERFYNWYD-

Ystyried gwahodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Sir y Fflint i un o gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd er mwyn rhoi gwybodaeth am y dull newydd maent yn ei dreialu.

28. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2018 i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2018.

29. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL

Darparwyd adborth ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ar 4 Mehefin 2018 fel a ganlyn:

Cofnod 12 – Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr: Rhoddodd y Cyngorydd Dana Davies (Cefnogwr Cyllid) wybod i'r Panel Heddlu a Throsedd ei bod wedi mynychu'r Pwyllgor Archwilio ar 20 Medi 2018, pan gyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon Terfynol, Adroddiad yr Adain Archwilio Mewnol, Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys a'r Gofrestr Risg.

O ran camau gweithredu'r Cadeirydd, cadarnhaodd Swyddog Arweiniol y Panel bod y mater mewn perthynas â'r Ardoll Brentisiaethau wedi ei godi gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Hysbysodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, er bod cynnydd wedi digwydd (roedd Llywodraeth Cymru yn cynnig £600,000, a byddai'r Swyddfa Gartref yn rhoi arian cyfatebol i'r Lluoedd Heddlu yng Nghymru), bydd y Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn trafod y mater, gan fod Lluoedd yr Heddlu yng Nghymru yn cyfrannu £2.2m i'r Ardoll Brentisiaethau ar hyn o bryd. Darperir gwybodaeth bellach i'r Panel ym mis Rhagfyr 2018.

Cofnod 14 - Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: Cadarnhaodd Swyddog Arweiniol y Panel bod y Cadeirydd wedi codi mater y Grant Swyddfa Gartref gyda CLILC, a oedd, yn eu tro, wedi gwneud sylwadau i'r Swyddfa Gartref ar ran y Panel yng Nghymru, bod angen cyllid ychwanegol i gefnogi gwaith y Panel yng Nghymru, oherwydd, yn wahanol i Lloegr, ni chânt ddefnyddio cyllid yr Awdurdod Lleol i gefnogi'r gwaith.

30. **CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Yn unol â'r Protocol ar gyfer Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, roedd aelod o'r Panel Heddlu a Throsedd (John Williams) wedi cyflwyno'r cwestiynau canlynol, ac fe ymatebodd y Comisiynydd iddynt fel a ganlyn:

Cwestiwn:

O ystyried y cyfyngiadau amser sydd wedi ei osod ar fechnïaeth yr heddlu, a yw cyfanswm yr unigolion sy'n derbyn mechnïaeth gan yr heddlu wedi lleihau yng Ngogledd Cymru.

Os felly, ac yng ngolau'r feirniadaeth a wnaed gan y Barnwr Rhys Rowlands mewn achos cyffuriau diweddar (adroddwyd yn y Daily Post 30/8/18) oes unrhyw broblemau penodol yn codi wrth ddod ag unigolion gerbron y llysoedd a beth sy'n cael ei wneud i wella'r sefyllfa.

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:

O ran y mater penodol hwn, cafodd y feirniadaeth gan y Barnwr Rhys Rowlands, a gyfeiriwyd ato yn y Daily Post ar y 30 Awst (yn dilyn y dedfrydu), ei godi ac fe ddeliwyd ag ef ym mis Ebrill eleni. Ymatebodd Heddlu Gogledd Cymru i sylwadau'r Barnwr Rowlands mewn llythyr a chyfarfu'r Prif Gwnstabl gydag ef i drafod yr achos.

Ategodd y Barnwr Rowlands ei bryderon o ran rheolaeth yr ymchwiliad ac yn arbennig o ran rhyddhau'r unigolion dan amheuaeth tra'u bod dan ymchwiliad a'r defnydd o alwad drwy'r post.

Mewn perthynas â'r 'achos cyffuriau' cyfeiriodd Mr Williams ato, hoffwn wneud y pwyntiau canlynol:

Yn dilyn eu harestio a'u cyfweld, cafodd y tri unigolyn dan amheuaeth eu rhoi ar fechnïaeth er mwyn gwneud ymholiadau pellach, gyda'r un amod nad oeddent yn dod i Ogledd Cymru. Cawsant eu rhoi ar fechnïaeth i ddychwelyd i Orsaf Heddlu Llanelwy ar 15 Mehefin 2017. Nid oedd digon o dystiolaeth i'w cyhuddo ar y pryd.

Ar 11 Ebrill 2017, ac mewn ymateb i'r diwygiadau yn y Ddeddf Mechnïaeth, (a ddaeth i rym ar 3 Ebrill 2017), gofynnodd Arolygydd y Ddalfa i'r swyddog yn yr achos i adolygu mechnïaeth yr unigolion dan amheuaeth yn unol â'r gyfundrefn newydd. Roedd rhaid ystyried meini prawf rheidrwydd a cymesuredd mewn perthynas â'r tri unigolyn dan amheuaeth.

Yn unol â diwygiadau'r Ddeddf, rhaid i swyddogion sy'n adolygu benderfynu rhyddhau unigolyn dan amheuaeth, ar fechnïaeth neu heb fechnïaeth. Os gwneir y penderfyniad i erlyn, yn gyffredinol, caiff y diffynnydd ei ryddhau dan ymchwiliad a chaiff alwad drwy'r post.

Yn dilyn adolygiad, cafodd yr unigolion dan amheuaeth eu rhyddhau dan ymchwiliad, yn unol â Pharagraff 3.1 Mesur Plismona a Throsedd 2016; sy'n cyflwyno rhagdybiaeth mewn cyfraith bod disgwyl i unigolyn dan amheuaeth gael ei ryddhau heb fechnïaeth.

Ar 21 Chwefror 2018, derbyniwyd y cyngor ar gyhuddiad. Y penderfyniad a wnaed oedd y dylai'r tri gael eu cyhuddo o Gynllwyn i gyflenwi cyffuriau dosbarth A. Ar 26 Chwefror 2017, anfonwyd galwad drwy'r post at y tri dan amheuaeth i ymddangos gerbron yr Ynadon ar 12 Mawrth 2018.

Methodd un o'r dynion dan amheuaeth ag ymddangos yn y gwrandawriad cyntaf a chodwyd gwarant i'w arestio. Nid yw wedi cael ei ddal hyd yma.

Mae'n amlwg bod pryderon o ran cyflawni troseddau pellach wedi arwain at osod yr amodau mechnïaeth gwreiddiol. Fodd bynnag, roedd y newidiadau mewn deddfwriaeth o 3 Ebrill 2017 yn gosod lefel uwch o graffu o ran cymesuredd a rheidrwydd wrth osod amodau, ynghyd â gallu'r heddlu i orfodi'r amodau hynny. Ar y sail honno, roedd rhaid i swyddogion adolygu holl achosion mechnïaeth presennol a phenderfynodd y swyddog yn yr achos hwn mai Rhyddhau dan Ymchwiliad oedd y cyfrwng rhyddhau mwyaf priodol.

Rwy'n sicr bod uwch swyddogion yn ategu i'n swyddogion ymchwilio yn gyson, y pwysigrwydd o ddiogelu ac amddiffyn y cyhoedd wrth ystyried rhyddhau unigolion dan amheuaeth. Mae swyddogion wedi cael cyfarwyddyd i ofyn wrth Sarjant y Ddalfa i roi amodau mechnïaeth lle credir

bod angen hynny, a chodi'r mater gyda'r Arolygydd os caiff y cais ei wrthod.

I gloi, mae'n amlwg bod y swyddog yn yr achos hwn wedi delio â'r mater yn briodol ac roedd ei benderfyniad yn unol â diwygiadau'r Ddeddf Mechnïaeth.

Rhyddhau dan Ymchwiliad:

Mae newidiadau i reolau mechnïaeth ym mis Ebrill 2017, yn golygu mai dim ond mis sydd gan yr heddlu i ddwyn cyhuddiad ar ôl arestio. Yn genedlaethol, yn cynnwys Gogledd Cymru, arweiniodd hyn at ymchwydd yn nifer y rhai dan amheuaeth a "Ryddhawyd Dan Ymchwiliad" heb unrhyw amodau. Felly, yn ateb i gwestiwn Mr Williams, mae'r nifer dan amheuaeth sydd ar fechnïaeth amodol wedi lleihau yng Ngogledd Cymru.

Gwelwyd cwymp sylweddol yng nghyfran y rhai a arestiwyd yn ymwneud â Cham-Drin Domestig a gafodd eu rhyddhau dan fechnïaeth amodol pan gyflwynwyd y drefn o ryddhau dan ymchwiliad. Serch hynny, mae hyn wedi'i adfer ryw faint ers hynny, gyda thuedd gynyddol. Ar Wythnos 20, arweiniodd 17.2% o'r achosion at bresenoldeb yn ymwneud â cham-drin domestig yn y ddalfa at roi mechnïaeth amodol.

Mae'r duedd gynyddol hon, yn dangos nad yw swyddogion yn rhyddhau unigolion dan amheuaeth heb unrhyw amodau os yw diffyg amodau o'r fath yn peri risg i ddiogelwch y dioddefwr, ac os yw'r unigolyn dan amheuaeth yn debygol o droseddu eto.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru broses cytunedig mewn lle i reoli terfynau amser unigolion dan amheuaeth sy'n cael eu "rhyddhau dan ymchwiliad". Mae hyn yn sicrhau nad yw ymchwiliadau'n cael eu hystyng yn ddi-angen. Mae'r broses hon yn golygu bod swyddog ar lefel Arolygydd yn adolygu holl unigolion sydd wedi bod dan ymchwiliad am 30 diwrnod, Prif Arolygydd ar ôl 90 diwrnod ac Uwch-arolygydd ar ôl 120 diwrnod.

Gobeithiaf bod aelodau'r Panel yn hyderus ein bod yn cymryd y materion hyn o ddifrif, ac mae uwch swyddogion yn fy sicrhau bod swyddogion yn deall pwysigrwydd diogelu'r cyhoedd wrth ystyried rhyddhau unrhyw un dan amheuaeth.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, lle rwyf yn Gadeirydd, yn adolygu'r mater yn rheolaidd ac yn delio ag unrhyw bryderon sy'n cael eu codi gan ein partneriaid ar y Bwrdd, sy'n cynnwys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a Gwasanaeth Erlyn y Goron, o ran Rhyddhau dan Ymchwiliad.

Mae mechnïaeth cyn cyhuddo hefyd yn cael ei drafod ar sail Cymru gyfan. Mae Prif Erlynydd y Goron Barry Hughes yn edrych ar y wybodaeth ar hyn o bryd a fydd yn ein rhoi ni oll ar yr un trywydd. Os yw mechnïaeth yn angenrheidiol, mae terfynau amser llym, ac mae angen caniatâd y llysoedd er mwyn ymestyn y fechnïaeth tu hwnt i 3 mis.

Mae'r ddeddfwriaeth wedi arwain at ostyngiad o 80% yn nifer yr achosion o fechnïaeth ar draws Cymru. Rydym yn dal i dybio os mai dyma oedd bwriad gwirioneddol y ddeddfwriaeth (yn hytrach na gorfodi terfynau amser yn unig) ond mae wedi arwain at newidiadau arwyddocaol.

Diolchodd Mr Williams (Aelod Cyfetholedig Annibynnol) i'r Comisiynydd am ei ymateb cynhwysfawr.

31. **ADBORTH GAN AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr fel a ganlyn:

Cefnogwr yn erbyn Trosedd Cyfundrefnol

Rhoddodd John Williams (Aelod Cyfetholedig Annibynnol) wybod i'r Panel ei fod wedi cyfarfod â'r Ditectif Uwcharolygydd Iestyn Davies i drafod strwythur y Llu a'r dull a ddefnyddir yn erbyn troseddau cyfundrefnol.

Teimlai Mr. Williams bod y cyfarfod wedi bod o fudd a diolchodd i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am drefnu'r cyfarfod, a roddodd wybodaeth iddo am sut oedd y Llu wedi newid ers iddo ef wasanaethu fel Swyddog Heddlu.

Cefnogwr yn erbyn Caethwasiaeth Fodern

Rhoddodd Pat Astbury (Aelod Cyfetholedig Annibynnol) wybod i'r Panel ei bod wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad a gynhelir gan Bartenriaeth Hafan o Oleuni ar gaethwasiaeth fodern ac i gyfarfod partneriaeth rhanbarthol i drafod y gwaith a wneir i fynd i'r afael â'r mater.

Hysbyswyd y Panel bod cyllid wedi ei dderbyn gan y Gronfa Trawsnewid er mwyn cynnal digwyddiadau penodol i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern.

Cefnogwr Cyllid

Rhoddodd y Cynghorydd Dana Davies wybod i'r Panel ei bod wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Cyllid, i fynd trwy'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr adroddiad Cyllid 2018/19, a gafodd ei ystyried fel rhan o'r cyfarfod (gweler Cofnod 33 isod).

32. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y wybodaeth ddiweddaraf i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2018 i 1 Awst 2018.

Amlygodd y Comisiynydd y meysydd canlynol o'r adroddiad:

Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig

- Roedd Trais Domestig yn dangos gwelliannau mewn sawl maes, gan gynnwys ansawdd ymchwiliadau, nifer yr Hysbysiadau Amddiffyn Trais Domestig a roddwyd, yr achosion o weithredu mechnïaeth amodol a chyfraddau erlyn.
- Bu cynnydd yn nifer yr achosion o droseddau domestig a gofnodwyd ond hefyd roedd llai o unigolion a fu'n ddioddefwyr neu droseddwyr.
- Gallai symud o ddigwyddiadau domestig nad oedd yn droseddau i droseddau domestig awgrymu fod cynnydd ym manylder y modd y cofnodir troseddau.
- Roedd llawer o waith rhanbarthol yn digwydd, gyda chyflwyniad Fframwaith Perfformiad Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer y rhanbarth.

Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl

- Cafwyd nifer o ddigwyddiadau yn rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern.
- Mae'r Comisiynydd wedi rhoi ymateb manwl i Bwyllgor Dethol ar Faterion Cartref ar Gaethwasiaeth Fodern, a oedd yn atodiad i ddiweddariad y Comisiynydd.
- Roedd yr Uned Gaethwasiaeth Fodern yn cynghori Heddlu Gwent ar sut i sefydlu Uned o'r fath.

Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

- Rhoddodd y Comisiynydd wybod ei fod yn ystyried gwneud newidiadau i'r Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer 2019 ac addasu geiriad y flaenoriaeth Cam-fanteisio'n Droseddol ar Blant, a fyddai'n cynnwys digwyddiadau llinellau sirol, sy'n cynyddu mewn amllder.
- Ers colli'r gwasanaeth cyfweld Dychwelyd Adref, a arferai gael ei ddarparu gan Barnardo's, mae gostyngiad wedi bod mewn cyflwyniadau cudd-wybodaeth; roedd gwaith yn parhau rhwng Awdurdodau Lleol i gyflwyno proses newydd a'r gobaith oedd cyflwyno'r gwasanaeth hwn cyn gynted â phosibl.

Blaenoriaeth 4: Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol

- Ar hyn o bryd mae 28 o Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol yng Ngogledd Cymru, gyda chyfanswm o 267 o unigolion wedi'u cysylltu â'r grwpiau hyn.
- Amlygwyd y llwyddiannau diweddar o fewn adroddiad diweddarur'r Comisiynydd.

Rhannodd y Comisiynydd ddogfen, i hysbysu'r Panel bod y ffigyrau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn eu hadroddiad Trosedd yng Nghymru a Lloegr, Mawrth 2018 yn anghywir. Roedd y

ffigyrau dynladdiad gwirioneddol yn llawer llai na'r rhai a gyflwynwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd cydweithio rhwng tri llu heddlu ar y System Rheoli Cofnodion gyda Heddlu Glannau Merswy a Heddlu Swydd Gaer ac oherwydd newidiadau i fformat rhif cyfeirnod trosedd, roedd cofnodion hanesyddol o'r hen System Rheoli wedi eu rhyddhau yn y ffigyrau trosedd i'r Swyddfa Gartref, gan wneud iddo ymddangos bod troseddau ychwanegol wedi digwydd; gan ddyblu'r ffigwr a gofnodwyd yn flaenorol (gweler yr atodiad, sy'n darparu'r data).

Cysylltodd Heddlu Gogledd Cymru gyda'r Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gwneud cais i addasu'r ystadegau; bydd y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi ystadegau wedi'u cysoni gyda hen droseddau yn Hydref 2018 yn cynnwys hyd at Mehefin 2018 ac yn cyhoeddi set ddata diwygiedig Mawrth 2018. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cadarnhau y byddent yn gwneud hyn eto.

Dywedodd y Comisiynydd ei fod yn chwilio am sicrwydd gan Heddlu Gogledd Cymru bod ffigyrau troseddau eraill a gyhoeddwyd yn gywir; bydd y Comisiynydd rhoi diweddariad yn unol â hynny.

Diolchodd y Panel i'r Comisiynydd am ei ddiweddariad cynhwysfawr ac aeth ymlaen i drafod meysydd canlynol yn yr adroddiad:

- Sgôr Rheoli Risg mewn Gorfodi'r Gyfraith ar gyfer Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol.
- Lefelau amddiffyniad Trais Domestig Roedd Hysbysiadau Amddiffyn yn 48 awr a hyd at 28 diwrnod ar gyfer Hysbysiadau Amddiffyn Trais Domestig – byddai asesiad risg yn cael ei gyflawni er mwyn nodi'r lefel o fygythiad.
- Fideo a wisgir ar y corff
 - Cadarnhaodd y Comisiynydd bod Swyddogion yr Heddlu yn defnyddio offer fideo a wisgir ar y corff yn helaeth a lle bynnag mae'n briodol.
- Roedd y Panel wedi'i synnu â'r nifer o Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol yng Ngogledd Cymru.
 - Mewn ymateb, dywedodd y Comisiynydd bod 136 o Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol yng Nglannau Merswy, 122 ym Manceinion, 22 yng Nghymbria, a 28 yn Swydd Gaer.
- Enillion o Droseddau a chyfanswm yr asedau a atafaelwyd.
 - Bydd y Comisiynydd yn cadarnhau os caiff rannu'r wybodaeth gyda'r Panel.
- Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau
 - Dywedodd y Comisiynydd bod ymchwil wedi'i gyflawni yn genedlaethol, fodd bynnag nid oedd unrhyw gynnydd o ran y ffordd ymlaen hyd yn hyn.
 - Mae cynllun peilot yn digwydd yn Middlesbrough, a fydd yn galluogi defnyddwyr herion i chwistrellu eu cyffuriau mewn clinig.
- Pwerau stopio a chwilio
 - Dywedodd y Comisiynydd bod y Llywodraeth yn edrych ar ganllawiau newydd yng ngoleuni'r cynnydd mewn troseddau â

chyllyll, gan fod y trothwy ar gyfer cynnal gwiriadau stopio a chwilio yn eithaf uchel ar hyn o bryd.

Oherwydd y nifer o acronymau yn yr adroddiad, gofynnodd yr Is-Gadeirydd am eirfa o'r termau i'w atodi i adroddiad diweddaru'r Comisiynydd.

PENDERFYNWYD:

(a) Nodi diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

(b) Atodi geirfa o'r termau i'r diweddariad.

(c) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn rhoi diweddariad i'r Panel Heddlu a Throsedd i gadarnhau bod y ffigyrau trosedd a gyhoeddwyd gan Heddlu Gogledd Cymru i'r Swyddfa Gartref yn gywir.

(d) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn sicrhau os caiff rannu'r adroddiad o ran cyfanswm yr asedau a atafaelwyd.

33. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYLLIDEB 2018/19 (AR 31 GORFFENNAF 2018)

Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraaf i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar sefyllfa derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 a'r gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018.

Rhoddodd Aelod sy'n Gefnogwr Ariannol wybod i'r Panel bod y Prif Swyddog Cyllid wedi bod trwy'r adroddiad gyda hi a'i fod yn rhoi manylion yr amrywiannau yn y gyllideb, gyda'r rhagolwg o danwariant net o £603,000.

PENDERFYNWYD-

Nodi'r adroddiad.

34. MATERION BRYD

Er na chafodd ei gynnwys ar y rhaglen, roedd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi dosbarthu rhestr o'r penderfyniadau allweddol a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd rhwng 19 Mai 2018 a 31 Awst 2018 cyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD-

Nodi'r adroddiad.

35. CRYNODEB O'R CWYNION A GAFWYD

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru grynodedb o gwynion a gafwyd am y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd.

Yn dilyn ymgynghoriad gydag Aelodau'r Panel, adolygodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei Gweithdrefn Gwyno yn Ebrill 2018 a dosbarthu cyfrifoldebau statudol y Panel o ran delio â chwynion penodol a wneir yn erbyn y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd i Is-Bwyllgor Cwynion a ganiateir gan ddeddfwriaeth; roedd aelodaeth yr Is-Bwyllgor Cwynion yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac un Aelod Etholedig o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi manylion o'r cwynion a'r camau gweithredu er mwyn datrys y cwynion hynny.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol wrth y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei fod wedi derbyn 2 gwŷn pellach, a oedd heb eu cofnodi eto.

Yn dilyn aflonyddwch mewn cyfarfod blaenorol gan achwynydd yn erbyn y Prif Gwnstabl, gwnaeth yr Aelodau gais i lunio protocol aflonyddwch ar sut i ddelio gyda materion o'r fath yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD-

(a) Nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu sydd wedi eu cymryd mewn perthynas â'r cwynion a gafwyd.

(b) Bod Swyddog Arweiniol y Panel Heddlu a Throsedd yn llunio protocol aflonyddwch er mwyn delio â digwyddiadau mewn cyfarfodydd.

36. YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith i'r Dyfodol i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol.

37. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 3 Rhagfyr 2018 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm)

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 10 Medi 2018, am 10.30 am
Siambr y Cyngor - Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL: Pat Astbury (Yr Is-Gadeirydd yn y Gadair)

Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Dana Davies, Alan Hunter,
Hugh Irving, Eric Jones, Neville Phillips, Dylan Rees, John
Williams a Nigel Williams

Aelod Lleyg/ Aelod John Williams
Cyfetholedig

Swyddogion: Dawn Hughes (Uwch Swyddog Cefnogi) a Richard Jarvis
(Aelod Arweiniol/Cynghorydd Cyfreithiol)

Yn bresennol: Y Cynghorwyr: Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa
Comisiynydd Yr Heddlu a Throsedd) ac Arfon Jones
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd)

Hefyd yn Carl Foulkes a Gill Lewis (Aelod Annibynnol y Panel Penodi)
bresennol:

17. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Julie Fallon,
Matthew Forbes, y Cynghorydd Peter Read ac Ann Griffith (Dirprwy
Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd).

18. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Dim.

19. MATERION BRYS

Dim.

20. CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD

Dim.

21. GWRANDAWIAD CADARNHAU AR GYFER PRIF GWNSTABL HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol a Cynghorydd Cyfreithiol i'r Panel
Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adroddiad, sy'n amlinellu'r weithdrefn

i'w ddilyn yn ystod y Gwrandawriad Cadarnhau, mewn perthynas â phenodiad arfaethedig Prif Gwnstabl Gogledd Cymru gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Dyletswydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru oedd cynnal Gwrandawriad Cadarnhau, gwneud adroddiadau ac argymhellion o ran penodiad arfaethedig y Prif Gwnstabl, a chyhoeddi eu hadroddiadau a'u hargymhellion. Mae'n rhaid cwblhau'r broses o adolygu ac adrodd ar benodiad arfaethedig o fewn tair wythnos o nodi'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ohono.

Nododd y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei gyfrifoldebau o ran y broses gwrandawriad cadarnhau.

Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cyflwynodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adroddiad, a oedd yn cyngori'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o safle Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r broses benodi i'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i ddewis Prif Gwnstabl.

Yn dilyn proses ddethol drylwyr a chynhwysfawr, fe wnaeth y Comisiynydd a'r Panel Penodiadau benderfynu mai Mr Carl Foulkes yw eu hoff ymgeisydd, ac mai cynnig y Comisiynydd yw ei benodi fel prif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

Amlinellodd y Comisiynydd y rhesymau dros ei benodiad arfaethedig a pham y dewiswyd yr ymgeisydd i'w ystyried gan y Panel fel y ganlyn:

- Roedd Mr Foulkes yn brofiadol iawn ac wedi perfformio i safon eithriadol o uchel drwy gydol y broses;
- Roedd Mr Foulkes wedi bodloni a rhagori'r meini prawf yn y Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd;
- Roedd Mr Foulkes yn cael ei barchu gan ei Prif Gwnstabl presennol a blaenorol, ac roedd y ddau'n cefnogi ei benodi.
- Roedd dewis Mr Foulkes fel yr hoff ymgeisydd yn seiliedig ar deilyngdod.

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel bod y ddau ymgeisydd wedi derbyn clod drwy gydol y broses penodi, a oedd yn gynhwysol ac yn cynnwys dau fforwm budd-ddeiliad, a oedd yn darparu cynnwys allanol a mewnol a chraffu i'r broses.

Gill Lewis - Aelod Annibynnol

Cyflwynodd Aelod Annibynnol y Panel Penodiadau (Gill Lewis) ei hadroddiad a roddodd asesiad ar y graddau yr oedd y broses benodi yng Ngogledd Cymru wedi ei chynnal yn deg, agored ac ar sail teilyngdod.

Cynghorodd Mr Lewis bod dewis bach iawn o ymgeiswyr yn nodweddiadol o'r lefel hon, felly roedd cael dau ymgeisydd yn dangos bod yr hysbyseb wedi cael ei hysbysebu'n dda.

Daeth y Panel i wybod bod cael Panel Penodi a chynnwys dau Fforwm Budd-Ddeiliad, oedd yn gofyn set o gwestiynau cyffredin i'r ddau ymgeisydd i sicrhau cysondeb a thegwch, yn anarferol, ac eto'n profi bod y broses wedi bod yn agored ac yn deg.

Derbyniodd y Panel Penodi hyfforddiant ar y broses penodi a fframwaith cymhwysedd, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar y raddfa a ddefnyddiwyd i sgorio ymgeiswyr. Trafododd y Panel beth oedd lleiafswm y sgoriau derbyniol ymlaen llaw, ac fe gytunon nhw os nad oedd y safon yn cael ei fodloni, yna ni fyddai'r ymgeisydd yn cael ei benodi.

Roedd y Comisiynydd yn defnyddio arbenigedd dechnegol allanol drwy gydol y broses, i sicrhau ei bod yn un tryloyw a gwrthrychol, a bod y penodiad yn seiliedig ar deilyngdod. Roedd defnydd da o Fframwaith Plismona a Cymhwysedd y Coleg a'r Fframwaith Gwerthoedd drwy gydol y broses, a oedd yn caniatáu cofnodi a gwerthuso tystiolaeth glir.

Hysbyswyd y Panel bod y Comisiynydd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi dilyn canllawiau cenedlaethol yn fanwl.

Cadarnhaodd yr Aelod Annibynnol fod y broses o ddewis yr ymgeisydd a ffafriwyd fel Prif Gwnstabl Gogledd Cymru wedi dilyn canllawiau cenedlaethol yn cwrdd ag egwyddorion o degwch a bod yn agored ac roedd yn seiliedig ar deilyngdod.

Mewn ymateb i ymholiad yn ymwneud â'r Panel Penodi, cynghorodd Ms Lewis bod Mr Mark Polin, y Cynghorydd Technegol Plismona wedi darparu arbenigedd technegol a sicrwydd wrth ddrafftio a gwerthuso ymatebion i gwestiynau technegol.

Cwestiynau gan Aelodau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cwestiwn 1:

Gofynnodd y Panel pa gamau y byddai Mr Foulkes yn eu cymryd er mwyn cyrraedd Lefel 3 mewn Sgiliau Iaith Gymraeg.

Roedd Mr Foulkes yn wreiddiol o Ogledd Cymru ac roedd yn cydnabod pwysigrwydd cael Prif Gwnstabl sy'n siarad Cymraeg ac yn cofleidio Diwylliant Cymru. Cynghorodd Mr Foulkes i fod eisoes wedi cofrestru ar gwrs dysgu Cymraeg dwys yn ystod ei wyliau blynyddol ym mis Hydref a byddai'n ailgartrefu i Ogledd Cymru er mwyn cofleidio'r ffordd Gymraeg o fyw a diwylliant yr ardal.

Cwestiwn 2:

Wedi dangos i'r Fforymau Rhanddeiliaid a'r Panel Penodiadau, ei allu diamheuol i arwain Heddlu Gogledd Cymru, ond hefyd i ddarparu

gwelliannau i'r gwasanaeth plismona yng Ngogledd Cymru; gofynnwyd i Mr Foulkes pa welliannau yr oedd yn bwriadu eu darparu.

Dywedodd Mr Foulkes wrth y Panel bod Heddlu Gogledd Cymru yn llu da iawn, a'i fod yn bwriadu adeiladu ar gyflawniadau'r Prif Gwnstabl blaenorol fel bod yr Heddlu yn rhagori mewn meysydd megis:

- Diwygio digidol – Roedd Mr Foulkes yn cydnabod y pwysau ar wasanaeth 101 ac yn teimlo y gellir gwneud gwelliannau fel bod Swyddogion a Staff yn gweithio'n fwy effeithiol a galluogi i gymunedau gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru mewn amryw o ffyrdd.
- Mae lles staff yn eithriadol o bwysig i Mr Foulkes a bydd yn ymgymryd ag arolwg ar y cyd i gasglu barn staff;
- Atal - mae angen am ddull gweithredu sy'n atal ac yn rhagweithiol, a fyddai'n gofyn am weithio mewn partneriaeth/ethos.

Cwestiwn 3:

Gofynnwyd i Mr Foulkes sut y byddai'n darparu gwasanaeth plismona yn erbyn cefndir o adnoddau prin, fel yr amlinellwyd arno yn y proffil rôl.

Dywedodd Mr Foulkes bod y galw ar y gwasanaeth plismona wedi cynyddu, oherwydd mai Heddlu Gogledd Cymru oedd pwynt cyswllt cyntaf y rhan fwyaf o bobl. Roedd angen i ddeall y galw a chydweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod arwyddion at y sefydliad cywir.

Roedd y Panel yn credu y gellir hysbysebu'r ap 'sgwrsio byw' yn fwy eang. Mewn ymateb, cynghorodd Mr Foulkes bod cyfleoedd sylweddol i wella cyfathrebu drwy gydol y rhaglen ddigidol genedlaethol, a fyddai'n gwneud y sefydliad yn fwy effeithiol i ymdrin â'r galw cymhleth ar y gwasanaeth.

Cwestiwn 4:

Gofynnwyd i Mr Foulkes sut y byddai Brexit yn effeithio ar blismona.

Cynghorodd Mr Foulkes bod gwaith y cael ei wneud ar lefel blismona cenedlaethol i edrych ar y risg fwyaf i blismona a diogelwch, a fyddai'n cael effaith ar offer rhannu cudd-wybodaeth rhwng Gwledydd Ewropeaidd; roedd Mr Foulkes yn cydnabod y byddai effaith ar Borthladd Caergybi hefyd.

Cwestiwn 5:

Gofynnodd y Panel sut y byddai Mr Foulkes yn mynd i'r afael â throsedd yng nghefn gwlad.

Mewn ymateb, mae Mr Foulkes yn cydnabod daearyddiaeth heriol yr ardal ac yn nodi'r effaith mae trosedd yng nghefn gwlad yn ei gael ar gymunedau; yn enwedig mewn perthynas â throsedd difrifol a throsedd cyfundrefnol.

Roedd angen i ganolbwytio'n genedlaethol ar drosedd yng nghefn gwlad, ac roedd Mr Foulkes yn teimlo bod gan dimau cymdogaeth leol rôl i'w chwarae mewn ymdrin â throsedd yng nghefn gwlad, ac ni ddylid ymdrin ag o'n unigol.

Cwestiwn 6:

Gofynnwyd i Mr Foulkes a oedd yn teimlo petai'r 'rhyfel ar gyffuriau wedi'i golli'.

Roedd Mr Foulkes yn teimlo bod rôl o hyd i orfodi o ran trosedd yn ymwneud â chyffuriau, fodd bynnag, mae materion hanfodol o ran dibyniaeth ar gyffuriau yn bodoli o hyd; byddai angen dull gweithredu yn seiliedig ar ieched i fynd i'r afael â'r broblem. Roedd ymyraethau megis profion cyffuriau mewn gwyliau cerddorol yn llwyddiannus.

Cafodd y Panel eu hysbysu y byddai Mr Foulkes yn dechrau ar ei rôl ar 4/5 Tachwedd 2018, pe byddai'n cael ei benodi.

Roedd y Panel yn cytuno bod y Cyhoedd a'r Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 i ystyried ei adroddiad a'i gasgliadau – gadawodd Mr Foulkes, y Comisiynydd, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r aelod annibynnol (Gill Lewis) y cyfarfod ar y pwynt hwn hefyd).

Ystyriodd y Panel ymatebion yr ymgeisydd i'w cwestiynau a gwybodaeth arall a gyflenwyd gan y Panel yn unol â gofynion Atodlen 8 Deddf Rhaglen Ddiwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a chytunwyd yn unfrydol y dylid penodi Mr. Carl Foulkes yn Brif Gwnstabl ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

(Yn dilyn ei drafodaethau, daeth y Panel allan o bwyllgor caeedig a gwahodd y wasg, y cyhoedd, Mr Foulkes, y Comisiynydd, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Aelod Annibynnol yn ôl i'r cyfarfod.)

Estynnodd y Panel eu diolch i'r Aelod Annibynnol am ei hadroddiad manwl, a oedd yn sicrhau Aelodau'r Panel fod y broses benodi wedi ei chwblhau mewn modd teg ac agored, ac yn seiliedig ar deilyngdod.

Estynnodd y Panel eu diolch i'r Comisiynydd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am y ffordd drylwyr y cynhaliwyd y broses recriwtio a dewis.

Gwahoddodd y Panel Mr. Foulkes i gyfarfod o'r Panel yn y dyfodol i ddarparu diweddariad ar ei weledigaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

Estynnodd y Comisiynydd ei ddiolch i'r Panel am eu cefnogaeth wrth gadarnhau mai Mr Foulkes yw Prif Gwnstabl newydd Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD:

(a) Cadarnhau penodiad Mr. Carl Foulkes fel Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ar y telerau ac amodau a amlinellir yn adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

(b) Dylai Panel yr Heddlu a Throsedd gydnabod fod y broses benodi wedi ei chynnal yn unol ag egwyddorion tegwch, bod yn agored a theilyngdod.

22. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 24 Medi 2018 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am)

	PANEL YR HEDDLU A THROSEDD 3 Rhagfyr 2018 COFNOD PENDERFYNIADAU Adroddiad y Prif Weithredwr
---	---

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (“y Comisiynydd”) yn gyfrifol am wneud nifer o benderfyniadau drwy gydol y flwyddyn. Gall rhain gynnwys materion fel y gyllideb a’r praesept, penodiadau, blaenoriaethau plismona a thrafodion cyfreithiol.

2. SUT Y GWNEIR PENDERFYNIADAU

- 2.1 Mae’r Polisi Gwneud Penderfyniadau yn gosod y broses benderfynu y bydd Comisiynydd Gogledd Cymru yn cadw ati. Mae’n gosod y terfynau, y dull a’r egwyddorion ac yn amlinellu’r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau a wneir.
- 2.2 Bydd penderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd yn codi yn bennaf o gyflawni ei swyddogaethau statudol:- yn ogystal, gosodwyd dyletswydd statudol ar y Comisiynydd i gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau o fudd y cyhoedd arwyddocaol yn deillio o ymarfer y swyddogaethau statudol hynny, boed yn cael eu gwneud gan y Comisiynydd yn breifat neu yn sgil cyfarfod o natur gyhoeddus neu breifat.
- 2.3 Mae gofynion statudol yng Ngorchmynion 2011/12 ac 13 Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) (“y Gorchmynion”) ar gyfer cofnodi a chyhoeddi Gwybodaeth ynghylch penderfyniadau, yn gorchymyn fod angen elfennau penodol i gyflawni tryloywder a sicrhau uniondeb y rhai hynny sy’n gwneud penderfyniadau. Bydd penderfyniadau a wneir sy’n cael eu hystyried yn rhai o ddiddordeb i’r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ac yn cael eu darparu at sylw’r Panel yn yr adroddiad hwn.

3. CRAFFU AR Y PENDERFYNIADAU A WNEIR GAN Y COMISIYNYDD

- 3.1 Mae Panel yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am oruchwylio’r Comisiynydd a chraffu ar ei benderfyniadau.
- 3.2 Bwriad y Comisiynydd yw rhoi crynodeb i’r Panel o’r holl benderfyniadau a wnaed ynghyd â chrynodeb ynglŷn â pham y gwnaed y penderfyniad. Y bwriad yw y bydd hyn yn cynorthwyo’r Panel wrth gyflawni ei ddyletswydd wrth graffu ar ei benderfyniadau.

4. ARGYMHELLION

- 4.1 Dylai’r Panel nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

5. COFNOD PENDERFYNIADAU

5.1 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r prif benderfyniadau a wnaed o 1 Medi 2018 tan 9 Tachwedd 2018.

Dyddiad	Teitl a Chysylltiadau â'r penderfyniad llawn	Crynodeb
17.04.18	Strategaeth Rheoli Trysorlys (<i>Cymeradwywyd y Strategaeth hon yn y Bwrdd Gweithredol Strategol ar 17 Ebrill ond cafodd ei hepgor o'r Panel Heddlu a Throsedd oherwydd gwall gweinyddol</i>)	Cymeradwyodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y strategaeth rheoli trysorlys a'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.
13.09.18	Cerrig Camu a RASASC – dadansoddi dewisiadau	Roedd angen dadansoddiad dewisiadau ar gyfer gwell gwaith ar y cyd a chynladwyedd gan RASASC a Cherrig Camu. Gwnaeth y ddau sefydliad gyfraniad tuag at y gwaith o'u cronfeydd preifat a gwnaeth y Comisiynydd gyfraniad o £4000 o'r Grant Gostwng Trosedd ac Anhrefn. Roedd y dadansoddiad hwn yn brosiect newydd ac nid yw'r Comisiynydd wedi ei chyllido o'r blaen.
	Cronfa Ymyrraeth Gynnar	Mae'r Comisiynydd wedi rhyddhau £100,000 y flwyddyn am y 3 blynedd nesaf o'r Gronfa Gostwng Trosedd ac Anhrefn i sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar i atal trosedd ac anhrefn a lleihau niwed. Bydd yr holl brosiectau llwyddiannus hefyd yn ychwanegu gwerth at y rhaglen Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Byddwn yn cyhoeddi rhestr llawn o brosiectau llwyddiannus yn fuan.
	Canolfan Driniaethau'r Heddlu	Mae Canolfan Driniaethau'r Heddlu yn cynnig triniaeth, cefnogaeth ac adferiad ar gyfer swyddogion yr heddlu sydd wedi eu hanafu neu'n sâl ac yn cyfrannu at y gwasanaeth o'u cyflog. Mae'r Comisiynydd yn dymuno sicrhau bod swyddogion yr heddlu a gwirfoddolwyr yn gallu cael mynediad at y Ganolfan am ddim cost i'w hunain, mae felly wedi rhoi rhodd gyffredinol o £2000 gyda £500 yn benodol ar gyfer trin cwnstabiliaid arbennig. Mae hwn yn gyfraniad untro o gyllideb Swyddfa'r Comisiynydd.
	Parhad darpariaeth Cynghorydd	Bydd y Comisiynydd yn parhau i ariannu Cymorth i Ferched Cymru i sicrhau parhad darpariaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais

	Annibynnol ar Drais Domestig yn Wrecsam	Domestig o 3 o staff yn ardal Wrecsam. Darparwyd £7,500 pellach yn y flwyddyn ariannol hon o'r Gronfa Gostwng Trosedd ac Anhrefn.
	EIF – cynnig a wrthodwyd	Yn dilyn cais llwyddiannus am arian o'r Gronfa Ymyrraeth Gynnar, mae un sefydliad wedi gwrthod y cynnig yn anffodus. Bydd y Comisiynydd rŵan yn edrych ar gynigion eraill gan sefydliadau i ailddyrannu arian. Y swm a wrthodwyd oedd £4,700 y flwyddyn.
	Troseddau Casineb	Mae'r Comisiynydd wedi ychwanegu £3,500 i'r grant o £5,000 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Mae'r arian wedi ei ddarparu o'r Gronfa Gostwng Troseddu ac Anhrefn.

5.2 {0><}0{>Ceir Gwybodaeth Ychwanegol ar wefan y Comisiynydd ('[Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau](#)').<0}

6. {0><}76{>TRAFODION CYFREITHIOL<0}

6.1 {0><}0{>Yn unol â'r "Gorchmynion", mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi gwybodaeth ar y Contractau, Trafodion Eiddo ac Hepgoriadau i'r Rheolau Sefydlog y mae wedi eu cymeradwyo.<0}

6.2 {0><}0{>Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar y Cyd er eu gwybodaeth a'u craffu.<0}

6.3 {0><}0{>Ceir yr adroddiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018 yma <http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Information/Legal-Reports.aspx>

7. {0><}100{>PAPURAU CEFNDIR <0}

7.1 {0><}0{>Polisi Gwneud Penderfyniadau, Swyddfa Comisiynydd Gogledd Cymru<0}

7.2 {0><}0{>Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011<0}

7.3 {0><}75{>Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2012<0}

7.4 {0><}98{>Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2013<0}

{0><}94{>Awdur yr Adroddiad<0}

{0><}0{>Stephen Hughes, Prif Swyddog Gweithredol

Meinir Jones, Swyddog Gweithredol<0}

{0><}0{>(*Paratowyd yr adroddiad hwn ar 9 Tachwedd 2018*).<0}

**Y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd
3 Rhagfyr 2018
Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru**

Cyflwyniad

Dyma fy adroddiad i'r Panel ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst ac 1 Tachwedd 2018.

Mae'r adroddiad hwn yn delio â pherfformiad yn erbyn Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021. Nid yw'r adroddiad yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y Panel o dan adran 28 (6) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) y Ddeddf, mae'n rhoi i'r Panel yr wybodaeth y mae ei angen gan y Comisiynydd er mwyn cyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

Bydd aelodau'r panel yn ymwybodol, yn 2017-2021, fy mod i wedi penderfynu blaenoriaethu'r meysydd hynny a nodwyd fel prif feysydd bygythiad, risg a niwed. Sef:

- **Cam-drin domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl**
- **Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant**
- **Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol**

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau hyn, mae gwasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch yn parhau i fod yn bwysig i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r hyn mae'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throsedd wedi dweud wrthyf ac mae **Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi.

Yn unol â hynny, rwy'n craffu ar Heddlu Gogledd Cymru trwy fesur ei berfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn. Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol (SEB) yr wyf yn ei gadeirio yn parhau i fod yn brif gyfrwng er mwyn i mi gyflawni'r swyddogaeth graffu honno, ac mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno. Cyflwynir adroddiad perfformiad gan yr Heddlu ym mhob cyfarfod SEB sy'n nodi'r sefyllfa a'r heriau presennol mewn perthynas â phob blaenoriaeth.

Er y byddaf yn monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn yn fy nghyfarfodydd SEB, mae'n ofynnol wrth gwrs bod agweddau eraill ar blismona yn parhau i gael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon. Yn hynny o beth, craffir ar rywfaint o wybodaeth am blismona craidd yn yr SEB hefyd.

Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig

Bu gwelliannau ym mhob maes ar gyfer y flaenoriaeth hon. Bu cynnydd yn nifer y troseddau domestig a gofnodir, rhywbeth rwyf bob amser yn ei groesawu gan ein bod yn cydnabod na cofnodir y math hwn o drosedd yn ddigon aml, ond hefyd bod llai yn dioddef neu'n troseddu fwy nac unwaith.

Erbyn dechrau mis Tachwedd 2018 roedd gostyngiad bychan yn y rhai sy'n dioddef fwy nac un waith (gostyngiad o 0.5%). Mae 26.7% yn fwy o ddioddefwyr sy'n ddynion hyd yma eleni, o'i gymharu â'r llynedd.

Roedd gostyngiad o 33.0% yn y nifer a oedd yn troseddu fwy nac un waith erbyn dechrau mis Tachwedd 2018. Mae nifer y rhai sy'n troseddu fwy nac unwaith wedi parhau'n is na'r cyfartaledd ers diwedd 17/18. Mae troseddswyr yn y grŵp oedran 25-34 oed.

Mae'r tîm Hyder a Bodlonrwydd Dioddefwyr Trais Domestig ar hyn o bryd yn cael eu recriwtio a disgwylir iddynt ddechrau gweithio'n fuan. Mae tîm arolygon allanol yn cyflenwi'r tîm cyfnewid. Mae'r cwestiynau'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddechrau arolygon ddiwedd Tachwedd.

Ym mis Mawrth 2018, roedd 81.3% o achosion llys Trais Domestig yn llwyddiannus o'u cymharu â 77.3% y flwyddyn flaenorol hyd yma. Soniwyd yn yr adroddiad HMICFRS diweddaraf bod nifer fawr o achosion Cam-drin Domestig nad oedd yn cael eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a NFAD gan Heddlu Gogledd Cymru. Gofynnwyd i'r CPS am ganllawiau wedi eu diweddarau o ran pa achosion sy'n briodol i'w gwaredu gan yr heddlu.

Ar ddiwedd mis Hydref 2018 roedd cynnydd o 30.3% wedi bod mewn achosion Cam-drin Domestig lle'r oedd o leiaf un Hysbysiad Amddiffyn Rhag Trais Domestig wedi eu cyhoeddi. Yn wir, Heddlu Gogledd Cymru yw un o'r lluoedd mwyaf blaenllaw yng Nghymru a Lloegr o ran ymgeisio am hysbysiadau o'r fath. Mae tîm Archwilio a Chydymffurfiant Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd wrthi'n adolygu effeithiolrwydd yr Hysbysiadau hyn ac ymgynghorwyd ag aelodau o'r tîm ar gylch gorchwyl yr adolygiad hwn. Bydd yr adolygiad yn edrych ar yr hyn a wnaed i ddiogelu'r dioddefwyr yn ystod y cyfnod ail feddwl, ac a geisiwyd barn y dioddefwyr a'r drwgweithredwyr yn ystod y broses. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu rhannu gyda fy nhîm maes o law. Tynnwyd fy sylw at y ffaith fod rhai Arolygwyr wedi datgan nad yw'r hyfforddiant ar gyfer DVPN/DVPOs yn ddigon penodol a bod angen yr hyfforddiant hwn arnynt er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus, dibynadwy ac ar sail tystiolaeth. Mae'r Llu ar hyn o bryd yn edrych ar y mater hwn ac yn llunio pecyn hyfforddiant priodol.

Bydd aelodau'r panel yn cofio bod gostyngiad sylweddol wedi bod yng nghyfran yr arestiadau yn ymwneud â Cham-drin Domestig yn arwain at fechnïaeth amodol pan gyflwynwyd 'Rhyddhawyd Dan Ymchwiliad ym mis Ebrill 2017. Ers hynny, mae'r safle wedi'i adfer rhywfaint, gyda thuedd gynyddol. Ar ddiwedd mis Hydref 2018, roedd 15.6% o'r achosion cam-drin domestig a arweiniodd at bresenoldeb yn y ddalfa yn arwain at roi mechnïaeth amodol.

Erbyn dechrau mis Tachwedd, cafwyd delweddau tystiolaeth o Fideo wedi'i Wisgo ar y Corff mewn 28.3% o achosion o Gam-drin Domestig. Mae hyn yn codi i 74.8% pan fod DVPN wedi'i roi.

Ni fu unrhyw lofruddiaethau yn ymwneud â materion domestig yn y flwyddyn ariannol hon. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn dal i gymryd rhan ymarferol ac yn chydweithredu mewn 5 Adolygiad Dynladdiad Domestig sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd. Rwyf wedi cael sicrwydd fod dau o'r adolygiadau hyn bron a chael eu cwblhau.

Mae Adolygiad MARAC Gogledd Cymru wedi ei gwblhau bellach ac mae'r argymhellion yn cael eu hystyried a byddaf yn cael fy ymgynghori'n fuan ar y canfyddiadau. Yn strategol, rwy'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth, drwy Fwrdd VAWDASV Gogledd Cymru i wella gwasanaethau MARAC ar draws y rhanbarth, i edrych ar gyflwyno grŵp goroeswyr, rhagor o hyfforddiant ynghylch

ymddygiad cymhellol a rheolaethol a darpariaeth mwy cyson o raglenni ymyrraeth cyflawnwr, gan gynnwys gwyro oddi wrth gael eu cadw yn y ddalfa.

Ym mis Mawrth 2018 anfonwyd cylchlythyr hyfforddiant at bob swyddog a staff ynghylch Ystelcian ac Aflonyddu. Roedd hyn yn ymateb uniongyrchol i'r argymhellion a'r sylwadau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad cenedlaethol 'Living in fear - the police and CPS response to harassment and stalking'. Rydym yn dal i aros am ganllawiau diffiniol ar y testun hwn gan y Coleg Plismona, a hefyd Protocol ar y Cyd wedi ei ddiweddarau ar ymchwilio i Ystelcian ac Aflonyddu gan y CPS/NPCC, a fydd yn cynnig eglurder pellach ar yr arferion gorau a'r ffordd ymlaen i sicrhau fod ein dioddefwyr yn derbyn yr ymateb mwyaf priodol wedi ei gydlynw a'r ffordd ymlaen i sicrhau bod ein dioddefwyr yn derbyn yr ymateb mwyaf priodol wedi ei gydlynw a'r safonau gwasanaeth uchaf. Mae ystelcian ac aflonyddu yn grŵp o droseddau y rhagwelir a fydd yn parhau i gynyddu yn sgil rhagor o riportio achosion o gyfathrebu maleisus, ac mae achosion ychwanegol o aflonyddu wedi eu cofnodi oherwydd newidiadau yn y rheolau cyfrif o fis Ebrill 2018.

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yw'r bancwr ar gyfer grant Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Llywodraeth Cymru ac rydym ni, drwy Fwrdd VAWDASV Gogledd Cymru, wedi cyfuno'r grant hwn gyda'n harian VAWDASV ein hunain, er mwyn comisiynu gwasanaethau mewn modd mwy llyfn yn ystod 2018/19. Yn ystod 2018/19 y gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu yn y rhanbarth, gan ddefnyddio grant Swyddfa'r Comisiynydd a VAWDASV (Llywodraeth Cymru) yw:


- Tîm VAWDASV Rhanbarthol, sy'n cynnwys Ymgynghorydd Rhanbarthol, dau Swyddog Datblygu a Swyddog Cefnogi Busnes.
- Darparu Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig ym mhob un o'r chwe awdurdod lleol.
- Darpariaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) i wasanaethu'r chwe awdurdod lleol, wedi ei leoli yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC). Mae'r Cynghorwyr yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y SARC
- Choose2Change (rhaglen cyflawnwyr) yn Wrecsam a Sir y Fflint.
- Tadau Gofalgar (rhaglen Cefnogi Teuluoedd) yng Nghonwy a Sir Ddinbych a Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae cyfarfod wedi ei drefnu rhwng yr Aelod Panel Arweiniol, y Cynghorydd Chris Bithell, ac un o'm Swyddogion Polisi i drafod y maes blaenoriaeth hwn ymhellach.

Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl

Mae lefel yr achosion o Gaethwasiaeth Fodern yn isel. Dros y 12 mis diwethaf mae 24 (50%) o'r troseddau a riportiwyd wedi bod mewn perthynas â chaethwasanaeth domestig, 9 (19%) i hwyluso teithio, a 15 (31%) o lafur dan orfodaeth ac ym mis Hydref 2018, roedd 26 o atgyfeiriadau Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol YTD.

MDS Offences types reported over last 12 months




Nid yw'r lefelau isel hyn yn adlewyrchu'r holl waith ataliol ac ymchwiliol sy'n digwydd yn y maes hwn.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud 13 o atgyfeiriadau Mekanwaith Atgyfeirio Genedlaethol (NRM). Mae yna atgyfeiriadau wedi bod gan asiantaethau eraill yng ngogledd Cymru.

Mae 128 o adroddiadau cudd-wybodaeth YTD yn ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern.

Intelligence submissions over last 12 months



Mae'r Adran Hyfforddiant yn llunio cwrs hyfforddiant Camfanteisio Troseddol ar Blant (CCE) / Pobl Ddiamddiffyn sy'n trafod Priodas Dan Orfod, HBA, Rheoli Troseddwy, Caethwasiaeth Fodern, Ystelcian/ Aflonyddu, Oedolion mewn Perygl, Eithafiaeth a Throseddau Casineb, Unigolion ar Goll, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Cam-drin Plant, Cam-drin Domestig, gwaith rhyw ac Anffurfio Organau Cenhedlu Merched (FGM). Y nod yw cyflwyno cwrs 2 ddiwrnod diwygiedig ym mis Hydref a mis Tachwedd.

Mae cyfarfodydd *Llinellau Sirol* wedi dechrau gyda'r Llu. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Uned Gaethwasiaeth Fodern, yr Uned Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn Strategol, a'r Cydlynnydd Unigolion ar Goll. Mae'r cyfarfodydd strategol hyn yn dechrau amlygu meysydd sydd angen bwrw ymlaen â nhw er mwyn gwella ymateb y llu i Gaethwasiaeth Fodern.

Mae dadansoddwyr Heddlu Gogledd Cymru ac adroddiad Caethwasiaeth Fodern misol i roi briff i Dditectif Uwch Arolygwyr ar y materion Caethwasiaeth fodern yn eu hardaloedd unigol.

Mewn perthynas â Chamfanteisio Troseddol ar Blant, mae 25 o blant sydd wedi eu hamlygu yng Ngogledd Cymru oherwydd eu rhan mewn Gangiau Stryd Trefol, ac mae rhai wedi cael eu cysylltu â throseddau Llinellau Sirol.

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf Grŵp Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru ddydd Iau 3 Hydref 2018 yn swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn. Roedd Mrs Pat Astbury, aelod arweiniol y Panel ar y flaenoriaeth Caethwasiaeth Fodern yn bresennol yn y cyfarfod ynghyd â Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Swyddog Polisi Swyddfa'r Comisiynydd. Rhoddwyd diweddariadau gan bob partner.

Ar 12 Hydref 2018, roedd cynrychiolwyr o'm swyddfa yn bresennol mewn cynhadledd a arweiniwyd gan Haven of Light, partner trydydd sector yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a chefnogi dioddefwyr caethwasiaeth fodern. Roedd nifer o bartneriaid cenedlaethol a lleol yn bresennol yn y digwyddiad gan gynnwys Llywodraeth Cymru, arweinydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gaethwasiaeth fodern yng Nghymru, Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur, Heddlu Gogledd Cymru, a Grŵp Santa Marta, a nifer o sefydliadau trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau o fewn y maes caethwasiaeth fodern. Diben y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth am y gwaith a wneir gan y gwahanol sefydliadau hyn a rhannu gwybodaeth ac arferion gorau.

Ar 18 Hydref 2018 mi wnes i noddi, mynychu a rhoi araith yng nghynhadledd gwrth-gaethwasiaeth BAWSO yn Wrecsam. Roedd nifer dda iawn o bartneriaid yn bresennol yn y digwyddiad hwn ac roedd wir yn tanlinellu mater allweddol sydd ar hyn o bryd yn wynebu pob partner sy'n gweithio yn y maes hwn, yn benodol y diffyg cefnogaeth i ddioddefwyr y tu allan i gyfnod 45 diwrnod y Fecanwaith Atgyfeirio Genedlaethol. Mae angen mynd i'r afael â'r mater yn genedlaethol. Rwyf eisoes wedi ymateb i Bwyllgor Dethol Materion Cartref ar y pwynt hwn ac wedi annog y Llywodraeth i ymestyn y cyfnod ar gyfer y Fecanwaith Atgyfeirio Genedlaethol. Yn ogystal, rwy'n annog darparwyr trydydd sector i anelu eu gwasanaethau tuag at y bobl hynny sy'n parhau'n agored i niwed ond am ba bynnag reswm nid ydynt yn gymwys dan y Fecanwaith Atgyfeirio Genedlaethol.


Mae fy swyddfa wedi cefnogi Heddlu Gogledd Cymru yn ei gais am gyllid o arian Trawsnewid yr Heddlu ar Gaethwasiaeth Fodern a roddwyd ar gynhadledd ar gyfer partneriaid sector preifat a statudol allweddol yn delio â thai a phobl ifanc. Mae'r digwyddiad, sy'n bennaf ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r risgiau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu gan grwpiau troseddu cyfundrefnol, sy'n hysbysu darparwyr gofal (preifat a chyhoeddus), awdurdodau addysg, sefydliadau tai trydydd sector ac eraill ynghylch llinellau sirol a chaethwasiaeth fodern.

Nodwyd fy ngwaith i a gwaith Heddlu Gogledd Cymru yng Nghynnig Cynnar-yn-y-Dydd 1763, a gyflwynwyd ar 26 Hydref 2018 gan Liz Saville Roberts AS. <https://www.parliament.uk/edm/2017-19/1763>

Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant


Mae'r berthynas rhwng Camfanteisio Troseddol ar Blant (gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant), ymddygiad troseddol Llinellau Sirol, a Chaethwasiaeth Fodern yn dod yn fwyfwy amlwg. Mae pobl ifanc sy'n ymwneud ag Ymddygiad Troseddol Llinellau Sirol yn aml yn dioddef troseddau eraill, fel Camfanteisio Troseddol ar Blant.

Mae atgyfeiriadau Caethwasiaeth Fodern a Camfanteisio Troseddol ar Blant gan yr awdurdod lleol yn cynyddu drwy'r amser ac felly hefyd y galw am bresenoldeb mewn cyfarfodydd MARAC / strategaeth. Fel y nodwyd uchod, cwblhawyd yr adolygiad MARAC a bydd yr argymhellion yn cael eu hystyried yn fuan.



Heddlu Gogledd Cymru sydd â'r ganran uchaf o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddau treisio o holl luoedd Cymru a Lloegr rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2018. Credir fod y perfformiad cryf hwn yn ganlyniad i'r ffaith fod Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal uned benodol ar gyfer treisio, bod â pherthynas waith dda gydag uned RASSO Gwasanaeth Erlyn y Goron, a bod yn rhagweithiol drwy weithio ar y cyd â phartneriaid i ddelio a phryderon cenedlaethol fel datgelu deunydd heb ei ddefnyddio mewn ymchwiliadau o drais. Oherwydd y perfformiad cenedlaethol diweddar hwn, mae nifer o heddluoedd eraill wedi cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru yn awyddus i ddysgu mwy am ei fodel ymchwilio i dreisio.

Mewn perthynas â chyflwyniadau cudd-wybodaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ym mis Hydref 2018, cyflwynwyd 94 eitem o gudd-wybodaeth hyd yma eleni, o'i gymharu â 100 eitem y mis yn 2017/18.



Mae llawer yn credu fod y gostyngiad hwn mewn cudd-wybodaeth yn ganlyniad i golli'r gwasanaeth cyfweiliadau dychwelyd adref yr arferai Barnardo's ei ddarparu.


Mae Wrecsam a Sir y Fflint yn parhau i gyflenwi cudd-wybodaeth yn ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn sgil cyllido swydd benodol i gwblhau'r cyfweiliad dychwelyd adref, a lliniaru'r risg. Mae Protocol ar y cyd i bob Awdurdod Lleol gadw ato yn cael ei lunio gyda'r bwriad o sefydlu cytundeb rhanbarthol mewn perthynas â'r gwasanaeth dychwelyd gartref, gyda darpariaeth leol. Mae'r Prif Gwnstabl wedi ysgrifennu'n flaenorol at bob Prif Weithredwr yn ceisio eu cefnogaeth barhaus gyda'r gwaith hwn.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fynychu chwe Phanel CSE rhanbarthol. Mae nifer o'r rhain wedi newid yn ddiweddar, neu wrthi'n newid, i gynnwys plant ar goll, masnachu mewn pobl a chamfanteisio troseddol. Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth mewn perthynas â'r grwpiau hyn a CSE bron a chael ei gwblhau. Dylai hyn ganiatáu rhannu gwybodaeth yn fwy strwythuredig.

Ym mis Medi 2018 enillodd Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy Wobr Anrhydedd Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol ar gyfer *Lleihau Camfanteisio'n Rhywiol yn ystod Plentyndod*, yn y categori *Gwell canlyniadau drwy ddysgu a chydweithio*. Dilynir hyn gan waith amlasiantaeth dan arweiniad Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy a Heddlu Gogledd Cymru a arweiniodd at sefydlu a datblygu fforwm CSE, cyfarfod amlasiantaeth a grëwyd i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau perthnasol ynghylch peryglon CSE cyfredol a thuaddiadau/ pryderon sy'n amlygu eu hunain. Roedd hefyd yn cynnwys datblygu'r Prosiect Arfogaeth, rhaglen CSE bwrpasol 9 wythnos o hyd wedi ei anelu at grwpiau bychan o bobl ifanc a nodwyd sydd mewn perygl o Gamfanteisio Rhywiol. Nod y rhaglen yw darparu cyngor atal pwrpasol ar CSE er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y byddent yn dioddef camfanteisio rhywiol yn y dyfodol. Mae'r gwerthusiad amlasiantaeth o'r rhaglen yn awgrymu fod yr ymyriadau'n effeithiol. Y bwriad yw cyflwyno'r gwaith hwn ym Mwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru er mwyn llywio arferion gorau ar draws y rhanbarth.

Mae adolygiad gan gymheiriaid o'r Tîm Onyx (y Tîm CSE) wedi ei gynllunio ar gyfer yr hydref. Roedd hwn yn gais i sicrhau fod y tîm yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon ac i nodi meysydd gwella a datblygu yn erbyn arferion gorau yn genedlaethol.


Mae'r Tîm Onyx a'r NSPCC yn parhau i gydweithio i nodi cyfleoedd i ddarparu gwaith ymwybyddiaeth ac ataliaeth CSE i'r rhai hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Wrth symud ymlaen rydym yn gobeithio cynnwys gwaith wedi'i anelu'n benodol at y gymuned LGBT.



Blaenoriaeth 4: Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol


Ar hyn o bryd mae 43 o Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol ar waith yng Ngogledd Cymru ac mae 372 o unigolion yn gysylltiedig â'r grwpiau hyn ar hyn o bryd.

Positive outcomes for the latest full month from individuals associated to active OCGs



Cipiwyd asedau gan 22 o droseddwr ym mis Medi: Roedd 2 yn ymwneud ag Arian/ Pethau Gwerthfawr, 2 yn ymwneud â Chyffuriau ac roedd yr 20 a oedd yn weddill yn ymwneud ag Eiddo Cyffredinol.

Property seized from OCG linked individuals over last 12 months



Mae Proffil Troseddau â Chylllyll Gogledd Cymru wedi ei gwblhau ac wedi ei ddosbarthu ac mae asesiad o anghenion *Llinellau Sirol* yn cael ei gomisiynu. Sefydlwyd grŵp llwyio amlasiantaeth i edrych yn benodol ar fynd i'r afael â Llinellau Sirol yn y maes hwn.

Mae proffil lleol *Llwybr tuag at Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol* hefyd yn cael ei gomisiynu. Mae dadansoddwyd Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid,

Awdurdod Lleol Wrecsam a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gynhyrchu'r ddogfen. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar Linellau Sirol gyda'r nod o nodi unrhyw dueddiadau a sbardunau er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar.

Mae fy ymateb i Strategaeth Trais Difrifol Llywodraeth y DU, a rannwyd gyda'r panel yn y cyfarfod diwethaf, wedi ei gyhoeddi bellach gan y Pwyllgor Dethol Materion Cartref. Un o brif amcanion y Strategaeth Trais Difrifol yw atal y rhai sy'n debygol neu'n dechrau cymryd rhan mewn troseddau cyfundrefnol drwy roi dewis arall iddynt yn lle troseddu. Bydd datblygu Rhaglen Wro Gogledd Cymru yn amlgu gwendidau ac yn mynd i'r afael ag achosion creiddiol ymddygiad troseddol. Bydd hyn yn ceisio lleihau'r nifer sy'n ymuno â'r byd troseddol

Mae gwaith maes yn parhau ar weithrediad Rhaglen Wro Gogledd Cymru sydd â dyddiad cychwyn arfaethedig o fis Medi 2019. Mi wnes i ymweld â rhaglen Checkpoint Durham ym mis Tachwedd i weld dros fy hun sut mae'r cynllun yn gweithio a sut mae wedi bod o fudd y gymuned leol. **Blaenoriaeth 5: Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel**

Ym mis Mehefin 2018, credai 73.7% o'r ymatebwyr fod Heddlu Gogledd Cymru yn "Deall Materion Cymunedol" (gan roi HGC yn 1af yng Nghymru ac yn 3ydd yn ei grŵp mwyaf tebyg o luoedd), a chredai 64.8% fod yr "Heddlu yn Ymateb i faterion Cymunedol" (2il yn ei grŵp mwyaf tebyg).

Mae adborth ynghylch dyfeisiau symudol yn dda o safbwynt eu defnyddioldeb. Mae'r defnydd o ddyfeisiau symudol yn y cohort plismona cymdogaeth yn cael ei hyrwyddo ymhellach i sicrhau fod Heddlu Gogledd Cymru yn gwireddu bendithion llawn y dyfeisiau hyn.

Tu allan i'r Orsaf - Ym mis Medi 2018 dangosir nad yw swyddogion yn yr orsaf am 41.1% o'r oriau sydd ar gael, a'r ffigwr ar gyfer PCSOs oedd 42.8%, gan roi cyfanswm cyfun o 41.3%.

Blaenoriaethau Lleol – Mae'r Coleg Plismona'n credu y dylai swyddogion ymwneud â 'gweithgarwch wedi'i dargedu' a defnyddio 'datrys problemau i ymdrin â blaenoriaethau a nodir yn lleol'. Mae strategaeth drefniadol ar gyfer y Timau Plismona Cymdogaeth wedi ei llunio yn sgil gweledigaeth y Coleg Plismona. Bydd anfon Sarsiantiaid y Tîm Plismona yn y Gymdogaeth i gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned, yn hytrach na Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac adolygu gwelededd mewn digwyddiadau mawr yn allweddol i'r strategaeth hon. Bydd Heddlu Gogledd Cymru rwan yn cefnogi 'digwyddiadau' os oes diben plismona penodol.

Materion Plismona Craidd:

Troseddau a Gofnodwyd – mae Wythnos 31 yn dangos cynnydd o 17.2%. Caiff y cynnydd cyffredinol ei arwain gan drais heb anaf. O fewn hyn, mae cynnydd mewn ymosodiadau cyffredin, aflonyddu a chyfathrebu maleisus fel mathau o droseddau.

Ar wythnos 31 mae gostyngiad o 21.1% mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) gyda gostyngiad ym mhob Ardaloedd Plismona Lleol (LPA). Nid yw'r ymchwydd tymhorol disgwylidig mewn ASB wedi digwydd eleni, ac ni welwyd unrhyw gynnydd mewn rhai LPA. Mae hyn wedi ei nodi drwy'r prosesau tasgu ASB Lleol Deallir fod y gostyngiad hwn yn sgil newid yn yr arfer cofnodi ynghylch ystelcian ac aflonyddu, gyda rhagor o ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi fel troseddau Trais heb Anaf yn lle hynny.

Yr amser ymateb ar unwaith cyfartalog yw 12.05 munud, ac mae'n parhau i fod yn sefydlog er gwaethaf cynnydd yn nifer y galwadau. Mae hyn yn amrywio o 8.7 munud yn Nhref Wrecsam i 17.0 yn Ne Gwynedd.

Y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2018 oedd bod gostyngiad o 16.1% yn nifer y rhai hynny a Laddwyd neu a Anafwyd yn Ddifrifol, i lawr o 124 i 104.

Carchar Berwyn:

Gofynnir yn aml i mi am y pwysau y mae Carchar Berwyn yn ei roi ar Heddlu Gogledd Cymru.

Rheolir y galw plismona yn y Carchar gan y Tîm Ymchwilio Carchardai (PIT). Ar hyn o bryd, mae'r tîm hwn yn cynnwys un ditectif sarsiant a thri ditectif gwnstabl. Mae swyddog gwybodaeth carchar hefyd wedi ei leoli yng ngorsaf heddlu Wrecsam.

O'r 173 o droseddau a gofnodwyd eleni, yn dilyn adolygiad llawn, ystyriwyd fod 6 trosedd yn addas ar gyfer dyfarniad gan y carchar ac felly cawsant eu dychwelyd i'r carchar ar gyfer gweithredu priodol. Mae 60 arall o'r troseddau hyn yn dal i gael eu hymchwilio iddynt.

Pan fo dyn wedi cyflawni gweithred dreisgar neu gamymddygiad arall sy'n effeithio ar les ehangach y carchar, efallai y bydd yn cael ei symud i un o gyfleusterau eraill y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hyn yn arwain at i staff Heddlu Gogledd Cymru orfod gwneud trefniadau i gyfweld unigolyn dan amheuaeth yn y cyfleuster, a all fod gryn bellter o Ogledd Cymru. Mae'r mater yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn genedlaethol ac rwy'n gobeithio fod datrysiad addas yn nesáu at gael ei gwblhau – fel cymorth cydfuddiannol.

Mae 42 o'r troseddau hyn wedi eu cwblhau am amryw o resymau eraill gan gynnwys, riporio blinderus, achwynydd amharod, peidio â chyrraedd prawf trothwy neu fater nad yw'n cael ei ystyried yn drosedd wedi hynny. Am weddill y flwyddyn hon, mae troseddau yn cael (neu wedi cael) eu cyflawni drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Y PIT sydd â'r llwyth gwaith mwyaf ar draws swyddogaethau ymchwilio troseddol Heddlu Gogledd Cymru.

Mae cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru yn eistedd ar weithgor cenedlaethol lle mae ymateb/ effaith plismona yn cael eu rheoli ynghyd â phartneriaid o'r gwasanaeth prawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) ac ati. Mae gweithgor carchar lleol hefyd yn bodoli ac yn cyfarfod bob deufis. Caiff y grŵp hwn ei gadeirio gan HGC, ac mae'r gwasanaeth prawf, plismona lleol, cudd-wybodaeth, uwch reolwyr yr MOJ, Pennaeth Integreiddio Carchar Berwyn a Titan (Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol Gogledd-Orllewin Lloegr) yn bresennol.

Stopio a Chwilio.

Mae aelodau'r panel wedi holi yn flaenorol pa mor eang y defnyddir grymoedd stopio a chwilio gan swyddogion yng Ngogledd Cymru a pha feini prawf y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn cyflawni chwiliad ac ati.

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mae dyletswydd arnaf i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch Stopio a Chwilio (yn arbennig ynghylch yr ymgyrch "Gwybod Eich Hawliau") Mae'r wybodaeth hon ar gael ar fy ngwefan <http://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Cyngor/Stopio-a->

[Chwilio.aspx](#) Yn ogystal, mae'r Llu wedi cyhoeddi adroddiad ar effeithiolrwydd a defnydd teg o stopio a chwilio <https://www.north-wales.police.uk/media/655603/nwp-report-on-the-effectiveness-and-fairness-of-the-use-of-stop-and-search-cym.pdf>

Yn ddiweddar mi wnes i gwrdd â'r Prif Gwnstabl Andy Cook o Heddlu Glannau Mersi ynghylch ei safbwynt ar Stopio a Chwilio. Yn ddiweddar, cyrhaeddodd y Prif Gwnstabl Cook – arweinydd Cyngor y Penaethiaid Heddlu Cenedlaethol ar droseddau cyfundrefnol – y penawdau cenedlaethol pan y dadleuodd fod gostyngiad yn y defnydd o Stopio a Chwilio wedi arwain at gynnydd mewn troseddau cyfundrefnol.

Mae'r defnydd o Stopio a Chwilio wedi bron a haneru i 304,000 y flwyddyn ers 2015, ond mae Glannau Mersi wedi mynd yn groes i'r duedd genedlaethol drwy gynyddu'r defnydd o'r dacteg mewn ymateb i gynnydd mewn ymosodiadau a gynnu a chyllyll yn y rhanbarth.

Nododd HMICFRS yn ei adroddiad Stopio a Chwilio "y dylai'r Llu wella ei broses ar gyfer craffu ar ystod eang o ddata a gwybodaeth stopio a chwilio yn rheolaidd, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng oedran, rhyw, ethnigrwydd a nifer yr achosion o stopio a chwilio a arweiniodd at ganlyniadau a oedd yn gysylltiedig â'r rheswm gwreiddiol dros chwilio".

Ymatebodd Heddlu Gogledd Cymru yn y dulliau canlynol:

1. Cynyddwyd y manylion yn yr adroddiad chwe-misol Stopio a Chwilio.
2. Newidiwyd y ffurflen Stopio a Chwilio i ganiatáu i'r cysylltiad rhwng y seiliau gwreiddiol a'r canlyniad i fod yn amlwg.
3. Diweddarwyd y wefan Stopio a Chwilio er mwyn caniatáu adborth dienw gan y cyhoedd.

Mae'r gweithredoedd hyn wedi eu cwblhau ac wedi eu hanfon at yr HMICFRS i gael sylwadau cyn i'r 'Maes Gwella' gael ei ysgrifennu.

Mae'r defnydd o'r grymoedd hyn wedi gostwng yn gyffredinol ar draws y llu (gostyngiad o 68% dros y pum mlynedd diwethaf) ac eithrio'r ardal Ddwyreiniol lle gwelwyd cynnydd yn ddiweddar. Nid ydym yn gwybod beth yw'r rhesymau dros y cynnydd hwn, ond gallai fod yn sgil ymgyrch gan uwch reolwyr mewn seminarau Sarsiantiaid yn y Dwyrain. Ar hyn o bryd mae gan y llu gyfradd canlyniadau positif o tua 30% sy'n ffafriol o'i gymharu â lluoedd eraill.

Bydd y llu'n cynnal adolygiad llawn o'r sefyllfa bresennol o safbwynt y defnydd o rymoedd stopio a chwilio. Nid yw hyn yw deall y mater yn well a penderfynu a yw perfformiad yn dderbyniol os oes angen gwelliannau. Hefyd, os ystyrir fod angen, bydd cynigion yn cael eu llunio er mwyn cynyddu'r defnydd o stopio a chwilio.

Perfformiad Cenedlaethol

Rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf i'r panel yn y cyfarfod diwethaf ynghylch anghysonderau yn y data a gyflenwir gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Swyddfa Gartref. Daethpwyd o hyd i'r anghysonder hwn wrth ddadansoddi ffigyrau llofruddiaethau yng Ngogledd Cymru.

Mae Gogledd Cymru, Glannau Mersi a Swydd Gaer wrthi'n cyfuno eu cronfa ddata i System Rheoli Cofnodion Niche tri llu. Oherwydd yr uniad hwn, newidiodd diweddariad a osodwyd ym mis Mawrth 2018 y modd yr oedd achosion yn ymddangos ar y system. Achosodd y newid hwn gynnydd o 2.6% yn

nifer y troseddau oherwydd fod hen achosion o'r system Legacy hanesyddol yn cyfuno gydag achosion troseddol newydd a chyfredol. Dyma'r rheswm pam fod yr ystadegau a ryddhawyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2018. Mae'r llw yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i sicrhau fod y data yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffigyrau troseddu gwirioneddol ar gyfer Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Mae bellach proses ar waith i sicrhau nad yw hen droseddau yn cael eu cynnwys yn y set ddata sy'n cael ei rhannu gyda'r Swyddfa Gartref.

Roedd y broses hon ar waith drwy ryddhau set ddata Troseddau yng Nghymru a Lloegr ym mis Hydref 2018. Ymhlith y cynnydd amlycaf yn ffigyrau mis Hydref oedd y cynnydd o 46% mewn troseddau rhyw. At ei gilydd cofnodwyd 971 trosedd ryw ychwanegol serch hynny, roedd oddeutu 400 o'r rhain yn sgil un unigolyn yn cyflawni troseddau rhyw ar-lein Mae hyn yn dangos sut y gall un unigolyn gael cymaint o effaith ar ffigyrau troseddu gan fod angen creu achos ar wahân ar gyfer pob dioddefwr.

Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb i'r Panel ynglŷn â'r prif bethau rwyf wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlisma.

O 1 Awst 2018 tan 1 Tachwedd 2018, cwrddais â'r unigolion / sefydliadau canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru), ac wedi bod yn y digwyddiadau canlynol:

Awst:

- Catrin Evans o IOPCC;
- Cyfweld ymgeiswyr am swydd y Prif Gwnstabl;
- Jack Sergeant AC ynghylch yr Ymgyrch Rhuban Gwyn;
- Wedi mynd i'r Eisteddfod
- Lee Robinson o CBS Wrecsam;
- Wedi bod i gyfarfod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghaerdydd;
- Sioe Amaethyddol Môn;
- Ymweliad PACT Clwb Pêl-droed Cynhwysiant Wrecsam;
- Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint;
- Ymweliad PACT TCC Abermaw;
- Wedi cynnal Diwrnod Gweithdy Amlasiantaeth ynghylch Diversion a Checkpoint;
- Sioe Sir Feirionnydd;
- Wedi ymweld â'r Swyddfa RASASC ym Mangor;
- Wedi ymweld â Gorwel;
- Wedi ymweld â CAIS;
- Ymweliad PACT y Ffederasiwn Cadwraeth ac Amgylcheddol;
- Cadeirydd Cymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Carchar;

Mis Medi:

- You Can't Recover If You're Dead: Cynhadledd Gwella Lleihau Niwed a Diogelwch Cymunedol yn Middlesbrough;
- Wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr o BASC;

- Cadeirio cyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru;
- Wedi bod i gyfarfod 'Cymdeithas Eglwys Bresbyteraidd Cymru' yn Llanrwst;
- Marchnad Dolgellau gyda'r 3 Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cymreig eraill;
- Digwyddiad Lansio Protocol Herbert;
- Wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r Truth Project;
- Cyfarfod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu / Prif Weithredwyr Gogledd-orllewin Lloegr;
- Gwasanaeth Coffa'r Heddlu yn Iwerddon;

Hydref:

- HMICFRS;
- Cynrychiolwyr gan Gwmni TGCh yr Heddlu;
- Cyfarfod Grŵp Portffolio Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu;
- Wedi Cadeirio Cyfarfod y Bwrdd Gweithredol Strategol;
- Cyfarfod Fideo Gynhadledd gyda'r Prif Gwnstabl, Cadeirydd a Phrif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyfarfod â'r Prif Gwnstabl a chynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref;
- Cynhadledd Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl BAWSO;
- Cystadleuaeth bêl-droed wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb Ysgol Clywedog;
- Cyfarfod y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru;
- Wedi cwrdd â'r Gweinidog Plismona;
- Sesiwn Friffio gan Action Fraud ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd;
- Ymddiriedolaeth Cae Dai yn Ninbych;
- Wedi Cynnal digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned Calan Gaeaf i lansio Ymgyrch Twilight – ymgyrch wedi ei anelu at ddiogelwch personol a diogelwch y cartref yn ystod yr hydref / gaeaf;
- Cynrychiolwyr gan Gwmni TGCh yr Heddlu;
- Cyfarwyddwr Clinks;
- Cyd Uwchgynhadledd Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu/ Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Heddlu.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid a'r cyhoedd, rwyf i a fy Nirprwy wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

[Pennaeth heddlu yn dewis ei ymgeisydd ar gyfer swydd prif gwnstabl](#)

[Bydd gadael Ewrop heb gytundeb yn peryglu pobl gogledd Cymru](#)

[Gwobr i wraig o ogledd Cymru sydd ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn caethwasiaeth plant](#)

[Stopiwch anfon ein carcharorion i Loegr, medd pennaeth yr heddlu](#)

[Gwobr i berson oedd yn arfer bod yn gaeth i gyffuriau sy'n helpu eraill i droi cefn ar yr arfer](#)

[Tîm TCC yn helpu dal lleidr wnaeth ddwyn gwerth £38,000 o nwyddau](#)

[Pennaeth heddlu yn dweud y dylid arfogi mwy o blismyn rheng flaen efo gynnu tasers](#)

[Prif gwnstabl newydd yn addo amddiffyn dioddefwyr ac ymladd trefnwyr troseddau](#)

[Pêl-droed yn helpu i roi'r gorau i ddefnyddio cocên](#)

[Police boss urges local companies to help boxing club punch above weight](#)

[Dylai plismyn gario chwistrell a allai arbed bywydau rhag gorddos cyffuriau, medd pennaeth heddlu](#)

[Troseddau casineb](#)

[Heddwes cymunedol trawsryweddol yn codi llais mewn fideo i ymladd troseddau casineb](#)

[Salah day as two-goal Adnan clinches Commissioner's anti-racism trophy](#)

[Bydd y penderfyniad i beidio sefydlu ystafelloedd cyffuriau yn arwain at fwy o farwolaethau, yn ôl pennaeth heddlu](#)

Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd:

O 1 Awst 2018 tan 1 Tachwedd 2018, cwrddodd y Dirprwy Gomisiynydd â'r unigolion / sefydliadau canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru), ac wedi bod yn y digwyddiadau canlynol:

- Cyfarfod achlysurol gyda Dirprwyon y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill yng Nghymru;
- Sioe Meirionnydd;
- Y Ganolfan Gymorth Treisio a Cham-drin Rhywiol ym Mangor
- Diwrnod Hwyl Canolfan Gymunedol Coed Mawr;
- Marsialiaid y Rhyl;
- Cyfarfod ynghylch datblygiadau yn Wylfa Newydd;
- Andy Jones, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ynghylch y Cohort IOM ac aliniad gyda Chynllun yr Heddlu a Throsedd;
- Cyfarfod gosod rhaglen IOM;
- Gwasanaethau Eirioli CADMHAS, Prosiect Pobl Ifanc y Rhyl, Prosiect Pobl Ifanc Dinbych a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych;
- Ysbyty Bryn y Neuadd, Llanfairfechan;
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru;
- Panel yr Heddlu a Throsedd;
- Cyfarfod Glasbrint Merched Mewn Cyfiawnder;
- Gwobrau POP;
- Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru;
- Cyfarfod IOM;
- Simon Wynne o Chwaraeon Dŵr Bae Colwyn;
- Grŵp Tasg a Gorffen Lleihau Carcharu Merched;
- Cyfarfod Rhanbarthol Caethwasiaeth Fodern;
- Briffio ynghylch argymhellion OIP;
- Trigolion Maesgeirchen, Bangor;
- Cyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan;
- Cynhadledd Caethwasiaeth Fodern;
- Golwg Fanwl ar Bolisi yn y Coleg Plismona;

- Rhwydwaith Genedlaethol Gwrth Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern;
- Cyfarfod Cyffredinol APCC;
- Digwyddiad Fforwm Pobl Hŷn yng Nghanolfan Gymunedol Parkway, Llandrillo-yn-Rhos;
- Cyfarfod Craffu ar Safonau Proffesiynol.

Comisiynu

Mae pob gwasanaeth a gomisiynwyd yn cyflawni yn ôl y proffil. Mae'r Gronfa Ymyrraeth Gynnar wedi cael ei chwblhau ac mae amryw o gyfarfodydd cychwynnol wedi eu cynnal gyda'r sefydliad llwyddiannus.

Dioddefwyr

Cyhoeddwyd y Strategaeth Ddioddefwyr ym mis Medi 2018. Croesawyd y ddogfen hon ac mae'n cael ei hystyried yn gam pwysig ymlaen i'r system cyfiawnder troseddol ac ar gyfer y dioddefwyr eu hunain. Felly nodwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB), mae dioddefwyr yn aml yn ystyried ei bod yn amhosibl mynd o gwmpas a deall y system cyfiawnder troseddol.

Mae'n bleser gen i nodi fod y Strategaeth yn cydnabod y gall y Comisiynydd gynnig trosolwg pwysig o'r modd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn lleol yn diwallu anghenion dioddefwyr.

Serch y ffaith ein bod yn cefnogi dioddefwyr mewn sawl ffordd drwy'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr, y Bwrdd VAWDASV a'r LCJB, rwy'n credu y gallem gyfathrebu yn well gyda'r cyhoedd o ran sut rydym ni a'n partneriaid yn diwallu anghenion dioddefwyr.

Mae'r Strategaeth hefyd yn pwysleisio swyddogaeth Comisiynwyr wrth sicrhau y cedwir at hawliau dioddefwyr dan y Cod Ymddygiad Dioddefwyr (VCOP). Mae fy swyddfa ar hyn o bryd yn gweithio â'r LCJB i gytuno ar broses ar gyfer craffu ar gydymffurfiaid gyda'r VCOP.

Mi wnaeth y Bwrdd Llywodraethu Dioddefwyr gyfarfod yn ddiweddar a rhoddwyd gwybod i ni fod y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr wedi cefnogi 10,278 o ddioddefwyr troseddau yng Ngogledd Cymru. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig cefnogaeth drwy Llywodraeth Cymru ar Droseddau Casineb. Ariennir hyn drwy Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru. Y llynedd prosesodd y Gweithiwr Achosion Troseddau Casineb 534 o atgyfeiriadau o bob rhan o Ogledd Cymru a darparwyd cymorth trylwyr i 87 o ddioddefwyr.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am HMICFRS

Yn 2018, newidiodd HMICFRS y modd maent yn cynnal arolygiadau drwy gyfuno'r tri arolygiad PEEL gydag un arolygiad Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb. Mae hyn yn unol a gweithrediad Datganiad Rheoli'r Llu a ddylai mewn egwyddor leihau'r galw a osodir ar y llw gan HMICFRS. Yn ddiweddar, cynhaliodd HMICFRS ymgynghoriad gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn holi pa mor effeithiol yr oeddynt yn teimlo oedd y Datganiadau Rheoli Llu wrth leihau'r galw ar luoedd. Ceir fy ymateb isod.



2018.13.09 GRB 280
2.pdf

Camddefnyddio Sylweddau

Mewn ymateb i Strategaeth Cysgu ar y Stryd Llywodraeth y DU, rhannodd y Comisiynydd ei bryderon am y ffaith fod y Llywodraeth yn diystyru bendithion ystafelloedd cymryd cyffuriau a'u gallu i asesu'r rhai hynny sydd fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau. Ceir yr ymateb Llawn isod.



Questions for the
Rough Sleeping Strat

Cyfarfod Craffu ar Safonau Proffesiynol.

Cynhelir cyfarfodydd chwarterol y Cyfarfod Craffu er mwyn galluogi'r Comisiynydd i oruchwylio a chraffu ar faterion Safonau proffesiynol. Yn y cyfarfod diwethaf ar 23 Hydref 2018, cafwyd trafodaeth ynghylch addasu fformat a gofynion data'r cyfarfod. Daw'r newidiadau a argymhellir i rym yn y cyfarfod nesaf a drefnir ar 29 Ionawr 2019. Fel rhan o'r newidiadau hynny, bydd rhagor o dryloywder ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd. Bydd nodiadau/ cofnodion y Bwrdd yn cael eu rhannu gyda'r Panel ynghyd â'r Bwletin Gwersi a Ddysgwyd a gynhyrchir o bryd i'w gilydd gan y Llu. Dylai'r newidiadau hyn ganiatáu'r Panel i gael trosolwg cliriach o'r gwaith y mae'r Comisiynydd yn ei wneud i graffu ar y Llu mewn perthynas â materion safonau proffesiynol ac yn ogystal yn dangos sut mae'r Llu yn ymateb i gyfleoedd dysgu.

Canolfan Reoli'r Llu

Yn dilyn nifer o gwynion gan y cyhoedd ynghylch y system 101, rwyf wedi gofyn i'm staff gynnal sampl dip ar gyfer galwadau nad ydynt yn rai brys bob chwarter blwyddyn. Bydd y sampl dip yn fy nghaniatáu i asesu lefel y gwasanaeth a roddir i'r cyhoedd. Bydd staff fy swyddfa yn derbyn hyfforddiant yn fuan ar systemau cyfrifiadurol yr ystafell reoli er mwyn eu caniatáu i gynnal y sampl dip.

Ymgynghoriad

Rydym wrthi'n llunio arolwg praesept eleni. Y llynedd roedd yr arolwg ar-lein yn fwy llwyddiannus nac unrhyw flwyddyn arall sy'n derbyn 1300 o ymatebion. Bydd arolwg eleni yn ymgynghoriad ar-lein a fydd yn ymgynghori â'r cyhoedd ar y praesept ac addasiadau rwy'n ystyried eu gwneud i flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

